# 151. Côr Cerdd Dant

## rhagair

**Detholiad o Awdl 'AFON'... Gerallt Lloyd Owen ...**

Bydd y flwyddyn 2025 yn dathlu hanner canrif ers i'r awdl *'Afon'* gan y diweddar Gerallt Lloyd Owen gipio Cadair Prifwyl Bro Dwyfor. Llongyfarchaf aelodau'r Pwyllgor Cerdd Dant am feddwl am ei chynnwys yn dasg i'r Corau Agored yn eu Prifwyl.

Nodweddir yr awdl gan *symledd mynegiant, cynildeb ymadrodd, sicrwydd cyffyrddiad* a *naws gyffredinol.* Mae'n *mynd â ni am dro drwy* ***dymhorau'r flwyddyn*** *a* ***thymhorau bywyd*** gan ddangos inni'r *golygfeydd amrywiol.* Mae'r bardd yn ail-greu'r gorfoledd a fu'n brofiad i sawl un ohonom a fagwyd yng nghefn gwlad ar lan ryw afon fechan ger ein cartref. *Llwyddodd i ganu'n gwbl gyfareddol am bethau cyffredin a welir ar lan afon ... adar a physgod, coed a thymhorau'n newid.* Mae'n *awdl delynegol* sy'n awgrymu'n gynnil a chelfydd ffrwyth myfyrdod y bardd ar ei destun. Mae'r afon yn ddelwedd o fywyd y bardd ei hunan.

Fe ddaeth cwpled agoriadol yr awdl yn rhan annatod o'n cynhysgaeth:

*'Pan feddwn dalent plentyn*
*I weld llais a chlywed llun ...'*

O ddechrau dyfynnu ohoni, hawdd fyddai ei dyfynnu'n ei chrynswth gan mor hyfryd o agos-atom ydy hi. **Oherwydd hyn, ni fu'r dethol yn hawdd.**

Ceisiwyd rhoi ystyriaeth i gydio'r penillion wrth ei gilydd i greu cyfanwaith terfynol; dewis cwpledi fyddai'n rhedeg yn ystyrlon i lunio penillion; sicrhau cyferbyniadau fydd yn rhoi cyfle i osodwyr a datgeiniaid; ceisio amrywio'r mesurau.

Amcanwyd at geisio cyflwyno cymaint o fesurau a phosib ... **cywydd** [penillion 1 a 2]; **dau englyn milwr** [pennill 3]; **hir a thoddaid** [pennill 4]; **cwpled o gywydd + englyn** [pennill 5] a **chywydd** [pennill 6].

Iwan Morgan [Tachwedd 2023]

EISTEDDFOD 2025

# DETHOLIAD O AWDL 'AFON'

**Pan feddwn dalent plentyn**
**I weld llais a chlywed llun,**
**Maint fy myd oedd hyd y ddôl,**
**Ac o'i glaswellt gogleisiol**
**Y rhwyfwn donnau'r hafwynt**
**Yn fy nghread gwastad gynt.**

**'Roedd dawns yng nghyfaredd dŵr,**
**Miwsig gwledd ymysg gloywddwr.**
**Yn y rhyd neidr ydoedd**
**A draig yn y rhaeadr oedd,**
**A'i glafoeriog lifeiriant**
**Yn ewyn poeth yn y pant.**

**O'r hesg edrych ar sgwadron**
**Yr hwyaid chwim yn sgimio'n**
**Hwyr y dydd dros rynwe'r don.**
**A mynd yn nhrafferthion mam**
**Wnâi dwy ungoes iâr dingam,**
**A'i chorff yn fyrrach na'i cham.**

**Onid un eiliad oedd lle dynoliaeth,**
**Un hoedl unnos yn ei chwedloniaeth?**
**'Roedd arial ei cherddoriaeth cyn bod cof,**
**Yr oedd hi yno fel hen farddoniaeth.**

**Nid hon oedd fy afon i**
**A gwedd eglwysig iddi.**
**Fan hyn oedd terfyn hanes, a'r afon**
**Rywfodd fel abades**
**Dan orchudd o lonydd les**
**Eira main ar ei mynwes.**

*trosodd*

**EISTEDDFOD 2025**

**Fy nyddiau, afon oeddynt,**
**Mân donnau fu oriau'r hynt.**
**Aethant fel breuddwyd neithiwr**
**Neu wib dail ar wyneb dŵr.**
**Dychwelodd talent plentyn**
**I weld llais a chlywed llun.**

**GERALLT LLOYD OWEN**

**DETHOLIAD GAN IWAN MORGAN**